# Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:
**Ty Hywel - Ystafell Bwyllgora 4**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 21 Mehefin 2011**

Amser:
**09:30**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Naomi Stocks**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8421
Petition@wales.gov.uk

**Name**
Dirprwy Clerc y Pwyllgor
029 2089 8421
sarita.marshall@cymru.gov.uk

## Agenda

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd dim ymddiheuriadau.

## 2 Gweithdrefnau ac arferion gweithio'r Pwyllgor Deisebau

2.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei weithdrefnau ar gyfer y dyfodol, ynghyd â'r arferion gweithio y bydd yn eu dilyn.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ganiatàu uchafswm o 10 munud i ddeisebwyr gyflwyno eu safbwyntiau mewn sesiynau tystiolaeth yn y dyfodol, a chaniatàu 20 munud i'r Pwyllgor eu holi.
- Gwneud mwy o ddefnydd o rwydweithio cymdeithasol er mwyn gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd.

## 3 Deisebau newydd

3.1 P-04-319 Deiseb traffig y Drenewydd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.
Datganodd Russell George fuddiant yn y ddeiseb.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:
- Ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gofyn am ei sylwadau ar y materion sy'n deillio o'r ddeiseb.

3.2 P-04-320 Polisi Tai Cymdeithasol

Trafododd y Pwyllgor y ddesieb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:
- Ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn gofyn am ei sylwadau ar y materion sy'n deillio o'r ddeiseb.

3.3 P-04-322 Galw am ryddhau gafael Cadw ar eglwysi

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:
- Ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn gofyn am ei sylwadau ar y materion sy'n deillio o'r ddeiseb ac am ragor o wybodaeth am y ffordd y byddai'r Bil Diogelu Treftadaeth arfaethedig yn effeithio ar y ddeiseb hon.

3.4 P-04-323 Achubwch ein hysgolion bach

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.
Datganodd William Powell fuddiant ym mhwnc y ddeiseb.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:
- Ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gofyn am ei sylwadau ar y materion sy'n deillio o'r ddeiseb.
- Ysgrifennu at Gomisiynydd Plant Cymru i'w wneud yn ymwybodol o'r ddeiseb ac i ofyn ei farn ar y materion sy'n deillio o'r ddeiseb.
- Gwahodd y deisebwyr i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.
- Ysgrifennu at y Ddraig Ffwnci i ofyn am sylwadau ar y mater hwn.

3.5 P-04-324 Dywedwch Na i Tan 8 – Mae ffermydd gwynt a llinellau pwer foltedd uchel yn difetha ein cymuned

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Datganodd Russell George fuddiant yn y ddeiseb, a datganodd William Powell fuddiant yn y maes.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai dadl y Ceidwadwyr Cymreig yn cael ei gynnal ar y pwnc yn y Cyfarofd Llawn ar 22 Mehefin 2011.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn gofyn am ei sylwadau ar y materion sy'n deillio o'r ddeiseb.
- Ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Ynni a Newid Hinsawdd y DU yn gofyn am ei sylwadau ar y materion sy'n deilllio o'r ddeiseb.
- Ysgrifennu at Cyfeillion y Ddaear i ofyn eu barn ar y ddeiseb.

3.6 P-04-325 Arian a fyddai'n galluogi disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael mynediad i addysg ôl-16 prif-ffwrd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gofyn am ei sylwadau ar y ddeiseb.

3.7 P-04-326 Na i losgyddion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn gofyn ei farn ar y ddesieb.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

4.1 P-03-136 Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon. Dywedodd y Cadeirydd fod y deisebwr wedi gofyn i'r Pwyllgor ohirio trafodaeth bellach ar y ddesieb oherwydd ei fod wedi gwneud cais i gyfarfod y Prif Weinidog a'i Aelod Cynulliad lleol i drafod y pwnc.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ohirio trafod y ddeiseb tan iddo gael diweddariad pellach.

4.2 P-03-162 Diogelwch ar y ffyrdd yn Llansbyddyd

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Datganodd William Powell fuddiant ym mhwnc y ddeiseb.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ac yn amlygu pryderon am yr amser y mae'r gwaith wedi'i gymryd i'w gwblhau.

4.3 P-03-236 Siarter i Wyrion ac Wyresau

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ofyn am farn y deisebwr ar adroddiad interim yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol a gofyn a fydd hyn yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn y ddesieb.
- Ysgrifennu at fudiad Families Need Fathers yn gofyn ei farn am y ddeiseb.
- Ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am wybodaeth am y dystiolaeth a roddodd i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol.

4.4 P-03-256 Trenau Ychwanegol i Abergwaun

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Gau'r ddeiseb ac ysgrifennu adroddiad cloi arni.

4.5 P-03-263 Rhestru Parc y Strade

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddesieb hon.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn gofyn ei farn am y ddeiseb ac i egluro a fydd y Bil Diogelu Treftadaeth arfaethedig yn mynd i'r afael â rhai o'r materion ehangach sydd wedi codi wrth i'r ddesieb hon gael ei thrafod, a hynny mewn perthynas â diogelu lleoliadau ac adeiladau o ddiddordeb lleol a chenedlaethol.

4.6 P-03-271 Ardrethi Busnes yn Arberth

4.7 P-03-286 Ardrethi Busnes Ceredigion

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf i'r desisebau hyn.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Ffederasiwn Busnesau Bach i ofyn am ei farn am y ddeiseb.
- Ysgrifennu at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i ofyn a all ddatgan, wth ymateb i'r Pwyllgor, a fyddai'n fodlon i ddadansoddiad gael ei gynnal fel yr amlinellir yng ngohebiaeth y Pwyllgor.

4.8 P-03-288 Strategaeth Genedlaethol ar Fyw'n Annibynnol

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Wahodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

4.9 P-03-292 Darparu Toiledau Cyhoeddus

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y wybodaeth hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Pwyllgor perthnasol ar ôl i strwythur y pwyllgorau gael ei sefydlu i ofyn iddo a fyddai'n ystyried cynnal ymchwiliad i'r mater.

4.10 P-03-293 Adolygu Cod Derbyn i Ysgolion

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunoddy Pwyllgor i:

- Gau'r ddesieb ac ysgrifennu adroddiad cloi cryno arni.

4.11 P-03-294 Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru - cynrychioli menywod

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu sylwadau ar yr ymateb a gafwyd gan y Gweinidog Cyllid a gofyn iddynt a ydynt yn bwriadu cyflwyno cais i gael eu hariannu.

4.12 P-03-295 Kyle Beere - Gwasanaethau Niwroadsefydlu Paediatrig

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Cymru yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun 2011/12 ac i ofyn a yw gwasanaethau adsefydlu niwrolegol yn rhan o'r cynllun hwn.

4.13 P-03-298 Cyllid ar gyfer darparu adnoddau Cymraeg ar gyfer pobl â dyslecsia

yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y deiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn sut y rhoddir ystyriaeth i sicrhau bod deunyddiau cyfrwng Cymraeg ar gael, mynegi pryderon y deisebwyr a gofyn am roi blaenoriaeth i ymdrin â'r mater.

4.14 P-03-301 Cydraddoldeb i'r gymuned drawsryweddol

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf i'r ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ofyn am sylwadau'r deisebwr am y wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn.
- Ysgrifennu at y Pwyllgor perthnasol ar ôl i strwythurau'r pwyllgorau gael eu sefydlu a gofyn a fyddant yn ystyried cynnal ymchwiliad i'r mater hwn.

4.15 P-03-302 Ffatri prosesu compost

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddesieb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ofyn am sylwadau'r deisebwr am yr ohebiaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a gofyn a yw lefelau'r arogleuon drwg wedi gwella.

4.16 P-03-308 Achub Theatr Gwent

4.17 P-03-311 Theatr Spectacle

4.18 P-03-314 Achub Theatr Powys a Theatr Ieuenctid Canolbarth Powys

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y deisebau hyn.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ofyn am farn y deisebwr am yr ohebiaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru.
- Ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i ofyn am ei sylwadau am y ddeiseb, am gadernid Adolygiad Buddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru ar y mater penodol hwn ac a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i adolygu'r broses a'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â theatr mewn addysg.
- Pwyso ar Gyngor Celfyddydau Cymru am gopi o gynllun busnes yr Adroddiadau Asesu ar gyfer pob un o'r wyth cwmni theatr mewn addysg.

4.19 P-03-316 Dylid gosod yr angen i gynnal hebryngwyr croesfannau ysgol sy'n bodoli eisioes yn amod o Grant Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i

gynghorau lleol na ellir mo'i newid.

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ofyn am farn y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau am y ddeiseb hon.

4.20 P-03-318 Gwasanaethau Mamolaeth Trawsffiniol

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddesieb hon. Datganodd William Powell fuddiant yn y maes cysylltieidig o amseroedd ymateb ambiwlansys.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Powys a Chyngor Iechyd Cymuned Trefaldwyn i ofyn am eu sylwadau ar y materion sy'n deillio o'r ddeiseb ac am fanylion am eu cyfraniad at y broses ymgynghori.

4.21 P-03-317 Cyllid ar gyfer y Celfyddydau Hijinx

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn goyn am ei sylwadau ar y ddeiseb.
- Gwahodd y deisebwyr i gyflwyno tystiolaeth lafar.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.